# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 16.07.14

**Yn bresennol**: Cyng. Eryl Jones Williams, Cyng. Angela Russell, Cyng. Annwen Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO O'R NEWYDD, 111 - 113 STRYD FAWR, PORTHMADOG.**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Terry Reid a Miss Leanne Hignett

**Aelod Lleol:** Cynghorydd Jason Humphreys

**Ymddiheuriadau:** Dim i'w nodi

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer 111 - 113 Stryd Fawr, Porthmadog gan Savers Health and Beauty Limited, Hutchinson House, 5 Hester Road, Battersea, Llundain. Nodwyd bod tystiolaeth ddigonol i'r cais gael ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Gofynion y cais oedd i gyflenwi alcohol oddi ar yr eiddo. Rhoddwyd manylion am yr oriau arfaethedig.

Rhestrwyd hefyd y mesurau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cais gan yr Aelod Lleol a Chyngor Tref Porthmadog mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn a diogelu plant rhag niwed. Cyfeiriwyd at y ffaith bod Dwyrain Porthmadog gyda'r lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol uchaf yn Nwyfor a Meirionnydd ac y buasai cyflenwi alcohol rhad i'w yfed oddi ar yr eiddo yn cyfrannu at y broblem. Cwestiynwyd hefyd yr angen i gael siop arall yn y dref i werthu alcohol.

Nid oedd gan Heddlu Gogledd Cymru wrthwynebiad i'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd bod y cwmni wedi dechrau gwerthu alcohol yn eu siopau ers 2010 o ganlyniad i ymchwil trwyadl. Y bwriad oedd gwerthu gwinoedd da, seidr a chwrw. Pwysleisiwyd na fydd alcohol rhad na chaniau cwrw unigol yn cael ei gwerthu yn y siop. Nodwyd bod y cwmni yn ofalus iawn o'r hyn maent yn werthu ac o'r cwsmer maent yn ceisio ei ddenu. Nodwyd bod hyfforddiant allweddol yn cael ei gynnig i staff a bod un aelod o staff ar yr eiddo yn cael ei gydnabod fel 'deilydd personol y drwydded'. Os na fydd deilydd personol y drwydded ar yr eiddo - ni fydd alcohol yn cael ei werthu. Bydd y sefyllfa yn un sydd wedi cael ei rheoli ac mi fydd yr alcohol wedi ei leoli gyferbyn a'r man talu. Ni fydd staff o dan 18 oed gyda'r hawl i werthu alcohol.

Mewn ymateb i gwestiwn, ail bwysleisiwyd nad oedd bwriad gan y cwmni i werthu alcohol rhad er bod enw'r siop yn cyfleu argraff y buasai posib cael alcohol rhad yno.

Mewn ymateb i'r cais nododd yr Aelod Lleol (oedd hefyd yn siarad ar ran Cyngor Tref Porthmadog) bod rhaid amlygu pryderon o ganiatáu safle i werthu alcohol fuasai yn cyfrannu ymhellach at lefelau troseddau uchel sydd yn bodoli ym Mhorthmadog. Amlygwyd siom nad oedd yr heddlu yn gwrthwynebu'r cais o ystyried bod yr ardal yr ail uchaf yng Ngwynedd o ran trosedd ac anrhefn. Nid oes angen mwy o sefydliadau i gyfrannu at y broblem.

Mewn ymateb i'r sylw nododd cynrychiolydd y cwmni bod ymdrech deg yn cael ei wneud i werthu nwyddau i gwsmeriaid ac nid i rai sydd yn goryfed neu yfed ar y stryd – ni fydd gwinoedd o ansawdd yn apelio i'r uchod.

Wrth grynhoi ei gais nododd yr ymgeisydd y buasai yn fodlon cyflwyno system labelu er mwyn adnabod lle gafodd yr alcohol ei brynu. Yn ychwanegol, y cwmni yn fwy na pharod i gydweithio gyda'r heddlu ac ymuno a chyfrannu yn y cynllun Pubwatch lleol.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwydded 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn bod y cais yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

**PENDERFYNWYD**
**CANIATÁU Y CAIS AR SAIL Y SYLWADAU YSGRIFENEDIG A LLAFAR A DDERBYNIWYD YN DDAROSTYNGEDIG I'R AMODAU CANLYNOL (FEL A WIRFODDOLWYD GAN YR YMGEISYDD) GAEL EU HYMGORFFORI I'R DRWYDDED:**

1. **Bydd y fangre yn rhoi labelu unigryw ar gynnyrch alcohol;**
2. **Bydd y fangre yn ymuno a chyfranogi i'r cynllun pubwatch lleol.**

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21

diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO O'R NEWYDD, PEG AND MALLET, LLWYN FFYNNON, Y FFOR, PWLLHELI

| | |
|---|---|
| Ar ran yr eiddo: | Mr Chris Newsham, Ms Tocsin Fragua-Newsham, Mr Richard Williams (Cyfreithiwr) |
| Aelod Lleol: | Cynghorydd Peter Reid |
| Eraill a fynychwyd: | Mrs Joan Olsen (Preswylydd Cyfagos) , Mr T Alun Williams (Cadeirydd Cyngor Cymuned Llannor), Mr Richard M Williams (Cynghorydd Cyngor Cymuned Llannor), Mr E Troop (Preswylydd Cyfagos), Aelodau Cymdeithas Llannor. |
| Ymddiheuriadau: | Dim i'w nodi |

Atgoffwyd pawb o'r drefn gwrandawiad ac o bedwar egwyddor y Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

Gofynnodd yr Aelod Lleol am ganiatâd i gyflwyno sylwadau gerbron yr Is-bwyllgor.
Cyfeiriwyd yr Is-bwyllgor gan Gyfreithiwr y Cyngor i Reoliadau 17 ac 18 o'r Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005.Nododd pawb o'r partïon yn bresennol eu bod yn cydsynio i'r cais ac felly rhoddwyd caniatâd i'r Aelod Lleol gyflwyno sylwadau yn ystod y gwrandawiad.

Cyfeiriwyd yr Is-bwyllgor gan Gyfreithiwr y Cyngor i Reoliad 24 o'r Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005. Penderfynodd yr Is-bwyllgor osod uchafswm o 10 munud fesul parti ar gyfer cyflwyno sylwadau.

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Peg and Mallet, Llwyn Ffynnon, Y Ffor, Pwllheli. Nodwyd bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Gofynion y cais oedd i gyflenwi alcohol, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi ei recordio. Rhoddwyd manylion yr oriau arfaethedig.

Rhestrwyd hefyd y mesurau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cais gan 123 o drigolion cyfagos a Chyngor Cymuned Llannor yn datgan pryder fod y cais yn gofyn am yr hawl i chwarae cerddoriaeth tu mewn a thu allan i'r eiddo fydd o ganlyniad yn creu niwsans cyhoeddus. Yn ychwanegol, amlygwyd pryder y bydd caniatáu'r drwydded yn achosi mwy o broblemau mewn perthynas â llygredd sŵn ac agweddau diogelwch y cyhoedd (y safle ar ochr prif ffordd heb balmant).

Nid oedd gan yr Heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais ond nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cadarnhau bod y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn gyfyngedig i ddefnyddwyr y safle carafanau yn unig.

Cydnabuwyd sylwadau a waned gan y Gwasanaeth Tan lle nodwyd ffigyrau niferoedd sydd yn addas ar gyfer yr eiddo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Wrth ymhelaethu ar y cais nododd Mr Richard Williams, cynrychiolydd yr ymgeisydd bod yr ymgeisydd yn reolwr profiadol. Gwnaed sylw nad oedd gwrthwynebiad gan yr heddlu na'r Gwasanaeth Tan i'r cais. Nid oedd cwynion wedi eu cyfeirio at Reolwr y safle nac Adran yr Amgylchedd parthed lefelau sŵn. Nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod yr egwyddorion trwyddedu yn cael eu torri ac o ran diogelwch y cyhoedd, cadarnhawyd bod y gweithgareddau trwyddedig ar gyfer defnyddwyr y safle yn unig.

O ran ymateb i gwestiwn gan y panel, mynegodd Mr Williams bod y maes carafanau yn un cyfeillgar a'r rheolwr yn adnabod a / neu groesawu pawb i'r safle. O ganlyniad, ni welwyd problem rheoli mai defnyddwyr y safle yn unig fuasai yn defnyddio'r bar.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad gan ategu at y sylwadau a nodwyd trwy lythyr: Nodwyd yn benodol y pwyntiau canlynol gan Mrs Joan Olsen (Preswylydd Cyfagos), Mr T Alun Williams (Cadeirydd Cyngor Cymuned Llannor), Mr Richard M Williams (Cynghorydd Cyngor Cymuned Llannor), Mr E Troop (Preswylydd Cyfagos) yn datgan gwrthwynebiad i'r cais ac yn nodi yn benodol y pwyntiau canlynol:

- Nid oes budd i'r ardal o gynnig tafarn mewn lle gwledig
- Bydd caniatáu'r drwydded yn aflonyddu ardal sydd yn dawel a llonydd ei natur. Y safle yn ffinio a Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol gydag ymwelwyr yn dod i'r ardal i dystiolaethu hynny - yn ardal ddelfrydol sydd angen ei gwarchod rhag sŵn.
- Rhaid parchu diwylliant cefn gwlad Cymru - y datblygiad yn creu niwsans a diflastod i drigolion yr ardal. Y sŵn yn effeithio ar hawliau mwynderol y trigolion
- Ni ddylai trigolion lleol ddioddef anhwylustod am 8 mis o'r flwyddyn er difyrrwch ymwelwyr ac elw'r rheolwr
- Bod caniatáu gwerthiant alcohol yn effeithio ar fusnes y siop leol
- Bar ar y safle yn demtasiwn i blant
- Nid oes cyfiawnhad o'r angen – digon o lefydd eraill yn cyflenwi alcohol
- Gall caniatáu'r drwydded osod cynsail peryglus i safleoedd eraill yn Llŷn.
- Bod y safle wedi ei leoli ar ochr ffordd beryglus heb balmant, llwybr cerdded na golau stryd a byddai cael mynychwyr yn crwydro ar y ffordd wedi iddynt gael alcohol yn beryglus.

Cydnabuwyd hefyd mai detholiad o'r llythyrau a gyflwynwyd gyda'r adroddiad ynghyd ac enw a chyfeiriadau'r holl ymatebwyr.

Adroddodd cynrychiolydd o'r heddlu nad oedd tystiolaeth ddigonol o dan yr amcanion trwyddedu i wrthwynebu'r cais. Mynegwyd nad oedd galwadau wedi ei gwneud i'r heddlu yn y gorffennol a chafwyd rhybudd digwyddiad dros dro (Awst 2013) ar gyfer diwrnod o hwyl ar y safle. Cadarnhawyd bod yr heddlu wedi ymweld â'r safle lle cadarnhawyd mai gweithgareddau trwyddedig yn gyfyngedig i drigolion y parc carafanau yn unig sydd yn cael ei nodi yn y cais. Nodwyd hefyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno i gael amod ar y drwydded mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng.

Yn manteisio ar y cyfle i siarad nododd yr Aelod Lleol nad oedd ganddo sail i wrthwynebu'r cais gan nad oedd tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno. Mynegodd nad oedd yn cytuno gyda'r hyn

oedd yn cael ei geisio, ond dywedodd y buasai yn gwarchod pobl leol o unrhyw anhwylustod drwy ymyrryd a thynnu sylw petai unrhyw fater yn cael ei ddwyn at ei sylw. Cynigwyd y dylid gosod amod mai pobl y safle yn unig sydd yn cael defnyddio'r dafarn ac y dylai'r ymgeisydd barchu gofynion y bobl leol.

Diolchwyb i bawb am eu sylwadau.

Bu i Gyfreithiwr yr Awdurdod Lleol gyfeirio'r Is-bwyllgor at achos R (Daniel Thwaites plc) v Wirral Borough Magistrates' Court [2008] EWHC 838 (Admin).

Wrth grynhoi y cais dywedodd Mr Williams nad oedd unrhyw dystiolaeth ddigonol wedi cael ei gyflwyno er gwaethaf nifer uchel o wrthwynebiadau i wrthod y cais. Nid yw 'anhwylustod' yn amcan trwyddedu.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwydded 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn bod y cais yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

**PENDERFYNWYD CANIATÁU Y CAIS.**
**AR SAIL Y SYLWADAU YSGRIFENEDIG A LLAFAR, NID OEDD YR IS-BWYLLGOR WEDI EI ARGYHOEDDI BOD YNA UNRHYW DYSTIOLAETH Y BYDDAI RHOI'R DRWYDDED YN DEBYGOL O DANSEILIO UNRHYW UN O'R AMCANION TRWYDDEDU. YN YR AMGYLCHIADAU ROEDD YR IS-BWYLLGOR YN FODLON BOD Y CAIS YN GYDNAWS Â'R AMCANION TRWYDDEDU YN DDAROSTYNGEDIG I'R AMODAU CANLYNOL GAEL EU HYMGORFFORI I'R DRWYDDED:**

**Amod parthed Teledu Cylch Cyfyng**

- **Bydd wedi ei osod ac yn gweithio'n ddigon da i'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol allu monitro y tu mewn a'r tu allan i'r eiddo.**
- **Cedwir y cofnodion mewn fformat heb ei olygu am gyfnod o dim llai na 31 diwrnod ac ar gael i'r Heddlu neu'r Awdurdod Lleol.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:10pm a daeth i ben am 4:00pm